OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 3037 (Cy.285)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*26 Tachwedd 2003*
Yn dod i rym - -	*28 Tachwedd 2003*

Wrth arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(e), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi ystyried, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, y cyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**), sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled (Cymru) 2003, a dônt i rym ar 28 Tachwedd 2003 a byddant yn gymwys i Gymru'n unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yw'r ystyr sydd iddo yn adran 5(1A) a (3)(a) a (b) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "cynnyrch dynodedig" ("*designated product*") yw unrhyw gynnyrch coco neu siocled a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 1, fel y'i darllenir gydag unrhyw Nodyn i'r Atodlen honno ac unrhyw un o ddarpariaethau rheoliad 3 ac Atodlen 2 sy'n ymwneud â'r cynnyrch hwnnw; ac ystyr "cynnyrch siocled dynodedig" a "chynnyrch coco dynodedig" yw unrhyw gynnyrch o'r fath sydd yn gynnyrch siocled neu'n gynnyrch coco yn y drefn honno;

(**1**) 1990 p.16.
(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau a oedd yn arferadwy yn y gorffennol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

ystyr "Cytundeb AEE" ("*EEA Agreement*") yw Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd(**4**) a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992, fel y'i haddaswyd gan y Protocol(**5**) a lofnodwyd ar 17 Mawrth 1993;

ystyr "defnyddiwr olaf" ("*ultimate consumer*")yw unrhyw berson sy'n prynu ac eithrio —

(a) at ddibenion ailwerthu,

(b) at ddibenion sefydliad arlwyo, neu

(c) at ddibenion busnes gweithgynhyrchu.

ystyr "disgrifiad neilltuedig" ("*reserved description*"), o ran unrhyw gynnyrch dynodedig, yw unrhyw ddisgrifiad a bennir mewn perthynas â'r cynnyrch hwnnw yng ngholofn 1 o Atodlen 1;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys cynnig rhywbeth ar werth neu ei ddatgelu ar gyfer ei werthu neu ei gael yn eich meddiant i'w werthu a dehonglir "gwerthiant " ("*sale*") yn unol â hynny;

ystyr "Gwladwriaeth yr AEE" ("*EEA State*")yw Gwladwriaeth sy'n un o Bartïon Contractio Cytundeb AEE;

mae "paratoi" ("*preparation*") yn cynnwys gweithgynhyrchu a phrosesu neu drin o unrhyw fath;

ystyr "Rheoliadau 1996" ("*the 1996 Regulations*") yw Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**6**);

ystyr "sefydliad arlwyo" ("*catering establishment*") yw bwyty, ffreutur, clwb, tafarn, ysgol, ysbyty neu sefydliad tebyg (gan gynnwys cerbyd neu stondin sefydlog neu symudol) lle, wrth gynnal busnes, y caiff bwyd ei baratoi i'w gyflenwi i'r defnyddiwr olaf ac yn barod i'w fwyta heb baratoi pellach; a

nid yw "sylweddau bwytadwy eraill" ("*other edible substances*") yn cynnwys brasterau llysiau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3 neu lenwad unrhyw gynnyrch a bennir yng ngholofn 2 o eitem 7 neu o eitem 10(a) o Atodlen 1;

(2) Caiff unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad neu Atodlen â Rhif ei ddehongli fel cyfeiriad at y rheoliad neu'r Atodlen sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn.

Brasterau llysiau mewn cynhyrchion siocled

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, ceir ychwanegu brasterau llysiau, heblaw saim coco, a bennir yn Atodlen 2 at y cynhyrchion siocled hynny a bennir yng ngholofn 2 o eitemau 3, 4, 5, 6, 8 a 9 o Atodlen 1.

(2) Ni chaiff ychwanegyn yn unol â pharagraff (1) fod yn fwy na 5 y cant o'r cynnyrch gorffenedig, ar ôl tynnu cyfanswm pwysau unrhyw sylweddau bwytadwy eraill a ddefnyddir yn unol â Nodyn 1 o Atodlen 1, heb leihau isafswm cynnwys y saim coco neu gyfanswm y solidau coco powdr.

Cwmpas y Rheoliadau

4. Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i gynhyrchion dynodedig a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n barod i'w cyflenwi i'r defnyddiwr olaf neu i sefydliad arlwyo.

(**4**) OJ Rhif L1, 3.1.94, t.1.
(**5**) OJ Rhif L1, 3.1.94, t.571.
(**6**) O.S. 1996/1499; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1398.

Disgrifiadau neilltuedig

5. Ni chaiff unrhyw berson werthu unrhyw fwyd â label, pa un a yw ynghlwm wrth y papur lapio neu'r cynhwysydd neu wedi'i argraffu arnynt, os yw'r label yn ddisgrifiad neilltuedig neu'n deillio o ddisgrifiad neilltuedig, neu os yw'r label yn dwyn neu'n cynnwys disgrifiad neilltuedig neu rywbeth sy'n deillio o ddisgrifiad neilltuedig neu unrhyw air neu ddisgrifiad sy'n sylweddol debyg i ddisgrifiad neilltuedig onid yw —

(a) y bwyd hwnnw'n gynnyrch dynodedig y mae'r disgrifiad neilltuedig yn ymwneud ag ef;

(b) y disgrifiad hwnnw, neu'r peth hwnnw sy'n deillio ohono neu'r gair hwnnw'n cael eu defnyddio mewn cyd-destun sydd yn dangos yn benodol neu'n awgrymu'n glir nad yw'r sylwedd y mae'n cyfeirio ato ond yn un o gynhwysion y bwyd hwnnw; neu

(c) bod y disgrifiad hwnnw, y peth hwnnw sy'n deillio ohono neu'r gair hwnnw yn cael eu defnyddio mewn cyd-destun sy'n dangos yn benodol neu'n awgrymu'n glir nad yw'r bwyd hwnnw'n gynnyrch dynodedig ac nad yw'n cynnwys cynnyrch dynodedig.

Labelu a disgrifio cynhyrchion dynodedig

6.—(1) Heb ragfarnu Rhan II o Reoliadau 1996 yn gyffredinol, ni chaiff unrhyw berson werthu unrhyw gynnyrch dynodedig onid yw'r manylion canlynol wedi'u marcio arno neu ar label ynghlwm wrtho —

(a) yn ddarostyngedig i baragraffau (2)(a) a (3) isod, ddisgrifiad neilltuedig o'r cynnyrch hwnnw;

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (2) o reoliad 7, yn achos cynnyrch siocled dynodedig sydd, yn unol â rheoliad 3, yn cynnwys brasterau llysiau heblaw saim coco, ddatganiad amlwg a hawdd ei ddarllen sy'n dweud "contains vegetable fats in addition to cocoa butter";

(c) lle y defnyddir y geiriau "milk chocolate" yn ddisgrifiad neilltuedig neu yn addasiad o'r disgrifiad neilltuedig o gynnyrch siocled dynodedig, dangoser ar y cynnyrch beth yw cynnwys solidau llaeth powdr ar ffurf "milk solids:…% minimum", ar yr amod —

(i) o ran cynnyrch siocled dynodedig a bennir yng ngholofn 2 o eitem 4(a) o Atodlen 1, nad yw'r cynnwys solidau llaeth powdr a ddangosir yn llai na 14 y cant; a

(ii) o ran cynnyrch siocled dynodedig a bennir yng ngholofn 2 o eitem 5 o Atodlen 1, nad yw'r cynnwys solidau llaeth powdr yn llai nag 20 y cant;

(ch) yn ddarostyngedig i baragraff (4) isod, yn achos cynnyrch dynodedig a bennir yng ngholofn 2 o eitem 2(c), 2(d), 2(e), 3, 4, 5, 8 neu 9 o Atodlen 1, dangoser beth yw cyfanswm cynnwys solidau coco powdr ar ffurf "cocoa solids…% minimum";

(d) yn achos cynnyrch coco a bennir yng ngholofn 2 o eitem 2(b) neu 2(e), dangoser beth yw'r cynnwys saim coco.

(2) Pan werthir cynhyrchion siocled dynodedig a bennir yng ngholofn 2 o eitemau 3, 4, 5, 6, 7 a 10 o Atodlen 1 mewn pecyn amrywiaeth —

(a) ceir rhoi, yn lle'r disgrifiad neilltuedig, "assorted chocolates" neu "assorted filled chocolates" neu enw tebyg; a

(b) caiff y rhestr o gynhwysion y mae'n ofynnol gan Reoliadau 1996 eu nodi ar fwyd neu ar label bwyd fod yn un rhestr o gynhwysion ar gyfer yr holl gynhyrchion yn y pecyn amrywiaeth.

(3) At y disgrifiadau neilltuedig "chocolate", "milk chocolate" a "couverture chocolate" ceir ychwanegu gwybodaeth neu ddisgrifiadau sy'n ymwneud â meini prawf ansawdd ar yr amod bod y cynnyrch yn cynnwys —

(a) yn achos y disgrifiad neilltuedig “chocolate”, dim llai na chyfanswm o 43 y cant o solidau coco powdr, gan gynnwys dim llai na 26 y cant o saim coco;

(b) yn achos y disgrifiad neilltuedig “milk chocolate”, dim llai na chyfanswm o 30 y cant o solidau coco powdr a dim llai na 18 y cant o solidau llaeth powdr a gafwyd drwy ddadhydradu'n rhannol neu'n gyfan gwbl laeth cyflawn, llaeth hanner sgim neu laeth sgim, neu hufen, neu a gafwyd o hufen, menyn neu fraster llaeth wedi'u dadhydradu'n rhannol neu'n gyfan gwbl, yn cynnwys dim llai na 4.5 y cant o fraster llaeth;

(c) yn achos y disgrifiad neilltuedig “couverture chocolate”, dim llai nag 16 y cant o solidau coco powdr di-fraster.

(4) Caiff cyfanswm cynnwys solidau coco y mae'n ofynnol gan baragraff (1)(ch) uchod ei nodi ar gynnyrch dynodedig neu ar label y cynnyrch ei gyfrifo ar ôl tynnu i ffwrdd bwysau sylweddau bwytadwy eraill y darparwyd ar eu cyfer yn Nodyn 1 o Atodlen 1 ond heb dynnu i ffwrdd bwysau unrhyw gynhwysyn a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 1 yn un o gynhwysion y cynnyrch hwnnw neu bwysau unrhyw fraster llysiau a ychwanegir yn unol â rheoliad 3.

Dull o farcio neu labelu

7.—(1) Bydd Rheoliadau 35, 36(1) a (5) a 38 o Reoliadau 1996 (sy'n ymwneud â'r dull o farcio neu labelu bwyd) yn gymwys i'r manylion y mae'n ofynnol gan reoliad 6 o'r Rheoliadau hyn eu nodi ar gynnyrch dynodedig neu ar ei label fel pe baent yn fanylion y mae'n ofynnol gan Reoliadau 1996 eu nodi ar fwyd neu ar ei label.

(2) Bydd yr wybodaeth y mae'n ofynnol gan baragraff (1)(b) o reoliad 6 ei nodi ar gynnyrch siocled dynodedig neu ar ei label —

(a) yn yr un maes gweledigaeth â'r rhestr o gynhwysion y mae'n ofynnol eu nodi ar y cynnyrch neu ei label gan Reoliadau 1996;

(b) yn gyfan gwbl ar wahân i'r rhestr honno;

(c) mewn llythrennau trwm nad ydynt yn llai o faint na'r llythrennau a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhestr; ac

(ch) wedi'i lleoli yn agos at y disgrifiad neilltuedig, a allai ymddangos hefyd mewn man arall ar yr hyn a farciwyd neu ar y label.

Dulliau o gosbi a gorfodi

8.—(1) Bydd unrhyw berson sy'n torri neu'n peidio â chydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau rheoliad 5 neu 6 yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Bydd pob awdurdod bwyd yn gorfodi'r Rheoliadau hyn yn ei ardal ac yn eu gweithredu.

Amddiffyniad mewn cysylltiad ag allforion

9. Mewn unrhyw achosion yn ymwneud â thramgwydd o dan y Rheoliadau hyn bydd profi'r canlynol yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir—

(a) bod y bwyd yr honnir bod y tramgwydd wedi'i gyflawni mewn cysylltiad ag ef wedi'i fwriadu ar gyfer ei allforio i wlad a chanddi ddeddfwriaeth sy'n cyfateb i'r Rheoliadau hyn a bod y bwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno; a

(b) yn achos allforio i Wladwriaeth yr AEE, bod y ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â darpariaethau Cyfarwyddeb 2000/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â chynhyrchion siocled a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(**7**).

Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990

10. Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni yn cael ei ddehongli at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn —

(a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.);

(b) adran 3 (rhagdybiaethau y bwriedir bwyd ar gyfer ei fwyta gan bobl);

(c) adran 20 (tramgwyddau y mae'r bai amdanynt ar berson arall);

(ch) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adran 8, 14 neu 15 o'r Ddeddf;

(d) adran 22 (amddiffyniad o gyhoeddi wrth redeg busnes);

(dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(e) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(f) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r math a grybwyllir yn yr is-adran fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e) uchod;

(ff) adran 35(1) (cosbi am dramgwyddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e) uchod;

(g) adran 35(2) a (3) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (f) uchod;

(ng) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); a

(h) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

Diwygiadau a dirymiadau

11.—(1) Yn Rheoliadau 1996 (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru) yn rheoliad 4(2) (cwmpas Rhan II) caiff is-baragraff (b) ei hepgor.

(2) Caiff y cofnodion canlynol sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled 1976(**8**) eu hepgor (i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru)

(a) yn Rheoliadau Bwyd (Adolygu Cosbau) 1982(**9**), yn Atodlen 1;

(b) yng Ngorchymyn Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (Addasiadau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 1990(**10**), yn Atodlen 1 Rhan I, Atodlen 2, Atodlen 3 Rhan I ac Atodlenni 6 a 12;

(c) yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Allforion) 1991(**11**)), yn Atodlen 1, Rhan I;

(ch) yn Rheoliadau Bwyd (Esemptiadau'r Lluoedd) (Dirymiadau) 1992(**12**), yn Atodlen 1 Rhan I;

(**7**) OJ Rhif L197, 3.8.2000, t.19, fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad 152/2001 Cyd-bwyllgor yr AEE (OJ Rhif L65, 7.3.2002, t.26).
(**8**) O.S. 1976/541; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1982/17, 1982/1727, 1990/2486, 1991/1476, 1992/2596, 1995/3187, 1995/3267, 1996/1499 a 2002/329(Cy.42).
(**9**) O.S. 1982/1727 y mae iddynt ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**10**) O.S. 1990/2486 y mae iddynt ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**11**) O.S. 1992/1476 y mae iddynt ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**12**) O.S. 1992/2596 y mae iddynt ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.